

Annex C: Cwestiynau Ymgynghori

Enw	Rebecca Williams, Swyddog Polisi
Sefydliad (os yw yn berthnasol)	UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)
E-bost / Rhif Ffôn	rebecca@ucac.cymru / 01970 639950
Eich Cyfeiriad	UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Mae'r hysbysiad preifatrwydd yn [y ddoqfen ymgynghori](#) yn esbonio sut byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth.

Pennod 3

Cwestiwn Ymgynghori 1

Ym Mhennod 2, dywedom unwaith eto ein bod wedi ymrwymo i weithio'n rhanbarthol mewn meysydd allweddol, gan gydnabod hefyd fod angen gwneud newidiadau pellach i gefnogi hyn. Ym Mhennod 3, rydym yn cyflwyno'r opsiynau cyffredinol ar gyfer symud tuag at lai o awdurdodau, a'r rheini'n rhai mwy o faint, ac rydym yn crynhoi nodweddion y broses a fyddai'n gyffredin i bob opsiwn.

- a) Pa gamau ymarferol allai Llywodraeth Cymru eu cymryd i wneud y trefniadau gweithio'n rhanbarthol presennol yn haws ac yn fwy effeithiol, er enghraifft mewn perthynas â'r consortia addysg, gwasanaethau cymdeithasol a'r Dinas-ranbarthau a'r Bargeinion Dinas a Thwf?

Mae nifer o ffactorau sy'n peri pryder i UCAC o ran y system fel ag y mae ar hyn o bryd. Nid oes gennym safbwynt penodol ynghylch sut ac ar ba batrwm i ddiwygio strwythurau llywodraeth leol, ond amlinellwn ein pryderon gyda'r bwriad iddynt gael eu cymryd i ystyriaeth wrth i'r agenda ar gyfer cryfhau llywodraeth leol symud yn ei flaen:

- **Cyd-ffinio**
Mae'r ffaith nad yw awdurdodau lleol/consortia rhanbarthol yn cyd-ffinio gyda Byrddau Iechyd (yn arbennig) yn gallu creu dryswch a chymhlethdod. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac mae'r problemau hynny'n debygol o ddwysáu wrth i ofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 gael eu gweithredu dros y blynyddoedd i ddod.
- **Adnoddau dynol**
Yn sgil pwysau cyllidebol ar Awdurdodau Lleol, rydym wedi gweld dirywiad sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf o ran safon y ddarpariaeth arbenigol mewn perthynas ag adnoddau dynol addysg. Mae hyn yn digwydd oherwydd prinder staff adnoddau dynol yn gyffredinol a gormodedd o lwyth gwaith ar y rhai sy'n weddill. Yn ogystal mae cynnydd yn y ddibyniaeth ar staff adnoddau dynol 'corfforaethol', nad oes ganddynt y lefelau priodol o arbenigedd ym maes addysg. Gall hyn achosi problemau gwirioneddol o ran diffyg cyngor prydlon i ysgolion neu gyngor amhriodol, sydd yn ei dro yn gallu arwain at brosesau llawer fwy hirfaith neu gwbl ddianghenraid, sydd - yn eironig - yn mynd â llawer fwy o amser ac egni nag oedd ei hangen.

- **Consortia addysg rhanbarthol**

Mae angen i'r cydbwysedd o ran cyfrifoldebau rhwng yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol fod yn gliriach. Rhaid cofio mai awdurdodau lleol sy'n dala'r grym, ac yn dirprwyo dyletswyddau (yn ogystal â grym a chyllid) i'r consortia rhanbarthol mewn meysydd penodol at ddibenion penodol iawn. Mi ddylai'r llinellau atebolrwydd fod yn gwbl glir, gyda'r consortia'n atebol i'r grwpiau o awdurdodau lleol ar y cyd.

Mae materion cyflogaeth cymhleth yn codi yn y maes hwn yn ogystal, ac mi fyddai UCAC yn ffafrio gweld cymaint â phosib o swyddi'r gweithlu addysg yn dod dan adain yr awdurdodau lleol er mwyn sicrhau telerau ac amodau gwaith clir a chytunedig (a statudol). Mae hyn yn wir am ymgynghorwyr (rhanbarthol), am athrawon cyflenwi, a staff arbenigol eraill.

Elfen arall o'r gydberthynas gyda'r consortia rhanbarthol yw'r lefelau o gyllideb a ddirprwyir iddynt oddi wrth awdurdodau lleol. Petai llywodraeth leol yn cael ei ad-drefnu, mi fyddai'n cynnig cyfle i ailedrych ar y trefniadau cyllidebol, a sicrhau'r gwerth gorau am arian yn ogystal â'r atebolrwydd cryfaf.

- **Cefnogaeth i lywodraethwyr**

Ers i'r corff Llywodraethwyr Cymru ddod i ben yn ddiweddar, mae bwch anferth o ran cefnogaeth i gyrff llywodraethol ysgolion. Mae llywodraethwyr yn bobl lleyg sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau eithriadol o drwm, arbenigol ac amrywiol (e.e. amddiffyn plant, iechyd a diogelwch, prosesau cyflogaeth). Byddai parhau i adael iddynt weithredu heb gefnogaeth briodol yn anghyfrifol a hyd yn oed yn beryglus o ran y risgiau o gamweinyddu. Byddai unrhyw newidiadau i strwythurau llywodraeth leol yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â hyn.

b) Beth yw eich barn chi am yr elfennau cyffredin i'r prosesau uno yr ydym yn eu cyflwyno yn yr adran hon?

c) Beth yw eich barn chi am yr opsiynau a gyflwynwyd gennym ar gyfer creu llai o awdurdodau, a'r rheini'n rhai mwy o faint?

d) A oes unrhyw opsiynau eraill y dylem eu hystyried ar gyfer creu llai o awdurdodau, sy'n fwy o faint?

e) A oes gennych dystiolaeth ynglŷn â chost, manteision ac arbedion pob opsiwn a allai helpu i lywio'r penderfyniad? Os oes, rhowch fanylion.

Pennod 4

Cwestiwn Ymgynghori 2

Mae pennod 4 wedi egluro'r angen am eglurder ar y patrwm ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol a'r ystod o ffactorau y dylid ei hystyried wrth benderfynu ar ffurf newydd. Mae'n cynnig patrwm posibl ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol, y gellid ei gyflawni drwy bob un o'r opsiynau a drafodwyd yn y bennod flaenorol.

a) Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n bwysig rhoi eglurder ynghylch y patrwm ar gyfer llywodraeth leol y dyfodol?
b) Ydych chi'n cytuno â'r ffactorau a nodwyd gennym i lywio ein syniadau? A fyddech chi'n ychwanegu ffactorau eraill neu'n newid unrhyw ffactor?
Cytunwn yn gryf â'r angen i ystyried ffiniau gwasanaethau cyhoeddus eraill, ac yn arbennig felly Byrddau Iechyd Lleol (esboniwyd y rhesymau yng nghwestiwn 1 uchod). Ffactor arall y dylid ei ystyried yw diwylliant ieithyddol. Mae consortiwm rhanbarthol ERW, sy'n cwmpasu ardaloedd traddodiadol Gymraeg y gorllewin gydag ardaloedd ble mae llai o arfer o ddefnyddio'r iaith wedi golygu bod prosesau gweinyddol, cyfarfodydd a dogfennaeth wedi troi i raddau helaeth iawn i'r Saesneg trwy 'default'. Mae hyn yn gam peryglus yn enwedig yn ystod y cyfnod o geisio creu miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Cymreigio yw'r nôd, nid Seisnigeiddio trwy'r drws cefn. Pwyswn ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod hyn yn ystyriaeth ganolog wrth fynd ati i gryfhau llywodraeth leol.
c) Beth yw eich barn chi am yr ardaloedd newydd a awgrymir yn yr adran hon
d) A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ac, os felly, pa wybodaeth sydd gennych i gefnogi'r rhain fel dewis arall?
e) Oes yna unrhyw ddulliau eraill y dylem eu defnyddio i symleiddio trefniadau cydweithio ar lefel ranbarthol a rhwng cyrff cyhoeddus â'i gilydd yn yr ardaloedd awdurdod newydd? Os oes, beth ydyn nhw?

Pennod 5

Cwestiwn Ymgynghori 3

Mae'r pennod hon yn trafod y dull arfaethedig ar gyfer trawsnewid a'r goblygiadau ar gyfer sefydlu Pwyllgorau Pontio ac etholiadau i'r Awdurdodau Cysgodol o dan bob opsiwn.

a) Ydych chi'n cytuno â'r broses bontio arfaethedig: sef sefydlu Pwyllgorau Pontio a sicrhau bod etholiadau i Awdurdodau Cysgodol yn gallu cael eu cynnal cyn y diwrnod breinio ar gyfer yr awdurdodau newydd?
b) Ydych chi'n cytuno, pe byddai opsiwn 1 yn cael ei ddilyn, y dylem bennu dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol ym mhob cylch etholiadol?
c) A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y map arfaethedig?

Cwestiwn Ymgynghori 4

Mae'r ymgynghoriad yn awgrymu cynnal unrhyw etholiadau llywodraeth leol ym mis Mehefin 2021.

A oes unrhyw reswm pam na fyddai mis Mehefin 2021 yn ddyddiad addas? Os felly, awgrymwch ddyddiad arall gan nodi'r rhesymau pam y byddai'r dyddiad hwnnw yn fwy addas..

Cwestiwn Ymgynghori 5

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai cynlluniau neu asesiadau sy'n gysylltiedig â chylchoedd etholiadol, er enghraifft asesiadau llesiant a baratoir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn yn gwneud darpariaeth i sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd ag unrhyw gylchoedd etholiadol newydd yn y dyfodol. A oes unrhyw gynlluniau neu faterion eraill a allai fod ynghlwm wrth y cylch etholiadol y mae angen inni eu hystyried?

Cwestiwn Ymgynghori 6

Beth yw eich barn am y dull y dylid ei ddilyn i benderfynu ar derfynau'r adolygiadau etholiadol?

Pennod 6

Cwestiwn Ymgynghori 7

a) Sut gall cynghorau ddefnyddio gwybodaeth eu haelodau etholedig am eu cymunedau, a'u cysylltiadau ynddynt, yn fwy effeithiol?

b) Sut y gallwn gydnabod yn well lefel y cyfrifoldeb o fod yn gynghorydd lleol? Pa newidiadau i'r gydnabyddiaeth ariannol a'r gefnogaeth mae cynghorwyr yn eu cael fyddai'n galluogi ystod ehangach o bobl i fod yn rhan o'r gynrychiolaeth ddemocrataidd leol?

Cwestiwn Ymgynghori 8

a) A oes unrhyw bwerau eraill y dylid eu rhoi i lywodraeth leol? Os oes, beth ydyn nhw?

b) A oes rhyddid neu hyblygrwydd eraill y dylid eu rhoi i lywodraeth leol? Os oes, beth ydyn nhw?

Cwestiwn Ymgynghori 9

a) Pa feysydd sy'n cynnig y cwmpas mwyaf i rannu gwasanaethau trafodiadol?

- **Adnoddau dynol addysg arbenigol**
- **Cefnogaeth i lywodraethwyr**
- **Systemau ar gyfer cyflogi a darparu athrawon cyflenwi i ysgolion**

b) Beth yw'r ffordd orau o ddatblygu trefniadau o'r fath?

Cwestiwn Ymgynghori 10

a) Er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu dull cyson ar draws Cymru, lle bo cysondeb yn bwysig, sut ydych chi'n meddwl fyddai orau i ddarparu'r cyngor a'r cymorth ar y materion hyn?

b) Oes unrhyw heriau neu gyfleoedd eraill yn deillio o newid strwythurol neu ddarparu pwerau a hyblygrwydd eraill nad ydynt wedi eu nodi uchod? Os oes angen cymorth ar y meysydd hyn, ym mha ffordd y dylid rhoi'r cymorth hwnnw?

Awgryma UCAC y gellid ystyried, yn y cyd-destun hwn, y posibilrwydd o greu sefyllfa gliriach o ran cyflogaeth athrawon ysgol; ar hyn o bryd mae'r rhaniad rhwng y corff llywodraethol a'r awdurdod lleol yn gallu peri aneglurder, dryswch a chamweinyddu. Yn ogystal, mae'r sefyllfa bresennol yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer adleoli pan fydd achosion o ddiswyddo neu ailstrwythuro.

c) Pa un o'r materion a nodwyd uchod neu yn eich ymateb ddylai gael blaenoriaeth i'w ddatrys yn gynnar?

Cwestiwn Ymgynghori 11.

Hoffem wybod eich barn am ba effeithiau y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith ac o ran peidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

a) Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi?

Yn sicr mae peryglon yma. Fel y dywedwyd uchod, rydym wedi gweld awdurdodau traddodiadol Gymraeg yn cael eu Seisnigeiddio'n sylweddol ac yn sydyn iawn yn sgil dod yn rhan o gonsortiw m rhanbarthol ehangach. Rhaid bod yn ymwybodol o'r peryglon real iawn hyn.

b) Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Wrth ystyried ail-drefnu mi fydd yn hollbwysig fod yn ymwybodol o'r diwylliannau ieithyddol yn yr ardaloedd awdurdod lleol y bwriedir eu huno, a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'i gilydd o safbwynt ieithyddol. Dylid sicrhau mai gweithdrefnau ieithyddol yr awdurdod lleol 'cryfaf' o safbwynt y Gymraeg sy'n goruchafu wrth uno, ac nad oes unrhyw symud am yn ôl, naill ai o safbwynt polisiau swyddogol, nac o ran defnydd iaith 'default'.

Cwestiwn Ymgynghori 12

Eglurwch hefyd sut y credwch y byddai modd ffurfio neu newid (os bydd angen) y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn er mwyn arwain at effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwyn peidio â chael effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dylid defnyddio'r cyfle i symud mwy o awdurdodau lleol i gyfeiriad defnyddio'r Gymraeg fel iaith weinyddol. Mi fyddai i hynny fanteision sylweddol iawn o ran blaenoriaethu polisi eraill Llywodraeth Cymru.

Cwestiwn Ymgynghori 13

Mae'r Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ymgynghoriad yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru am effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr aseiad hwnnw.

a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol sydd heb eu nodi yn yr aseiad?

b) A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?

Cwestiwn Ymgynghori 14

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad yn rhoi braslun o farn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar grwpiau sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw.

a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad?

b) A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?

Cwestiwn Ymgynghori 15

Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ar gynnwys yr ymgynghoriad hwn.